YSGOL BRYNREFAIL

CWMNI'R FRÂN WEN

Dros ddau ddiwrnod ym mis Tachwedd fe adeiladwyd pabell mawr yn neuadd Ysgol Brynrefail.
Wedi'r trefnu gan Mrs Rhian Owen, i gefnogi Addysg Bersonol a Chymdeithasol o fewn yr Ysgol, bu dau berfformiad o 'Hawl' gan Iola Ynyr gan Cwmni'r Frân Wen , Porthaethwy.
Wedi eu hanelu at ddisgyblion flwyddyn 9 yr oedd y perfformiadau yn anelu at godi ymwybyddiaeth y disgyblion o ba mor bwysig yw hawliau gan ganolbwyntio at ofyn 'Pwy sy'n gwarchod ein hawliau?' a ' Sut all gwledydd mwyaf pwerus y byd dorri hawliau dynol sylfaenol heb dderbyn cosb?'
Cafwyd nifer o sefyllfaoedd a delweddau yn cael eu taflu at y gynulleidfa gan eu gorfodi i ymateb yn y fan a'r lle.
Yr oedd y golygfeydd wedi eu seilio ar ddigwyddiadau cyfoes rhyngwladol ond yn ddigon amwys i symbylu'r gynulleidfa i roi cig a gwaed am yr hyn a gyflwynwyd iddynt.
Barn y disgyblion oedd bod y perfformiad yn wefreiddiol, egniol, yn eiriol, corfforol a delweddol gan ysgogi'r gynulleidfa er bod y cynnwys yn ddwys.

Rhai o ddisgyblion blwyddyn 9 gyda cast y cwmni